

# CYNHYRCHU FFRWYTHAU HEL-EICH-HUN YM MHENLAN-LAS

**CALU**  
**FFERM ARDDANGOS**  
**FFEITHLEN**  
Medi 2009



## RHAGARWEINIAD

Yn y ffeithlen hon, ceir trosolwg ar weithdy CALU a gynhaliwyd yn Fferm Penlan-las ger Aberystwyth ar 2 Ebrill 2009. Mae'r fferm gymysg yn tyfu ffrwythau a llysiau ar gyfer ei busnes a'i siop fferm Hel-eich-Hun lwyddiannus. Ceir yno hefyd gwrs golff 9 twll a chaffi / tŷ clwb deniadol ar y safle.

Mae'r fferm ryw 4 milltir i'r de-ddwyrain o Aberystwyth. Mae'r safle tua 160m uwchlaw lefel y môr, ac wedi'i ddsbarthu'n bennaf fel pridd lôm clai graddfa 4. Tan 1980, menter eidion a defaid yn bennaf oedd y fferm 73 hectar. 0.4ha o fefus oedd y ffrwythau cyntaf a blannwyd, a hynny ym 1980.

## CNYDAU A DYFIR AR Y SAFLE

Ar gyfer y busnes hel-eich-hun, mae'r fferm yn tyfu mefus, llus, coed ffrwythau, iwstaberis, mafon, cyrens duon, riwbob, mwyar duon a gwsberis.

## MEFUS – A DYFIR AR GAEAU

*Symphony* yw'r prif fath o fefus a dyfir ar gaeau. Bydd *Symphony* yn cynhyrchu rhyw 8 tonnell fetrig yr hectar mewn blwyddyn dda. Fodd bynnag, gall gymryd blwyddyn i fefus sydd newydd eu plannu fagu gwreiddiau'n gadarn.

Tyfir y planhigion ar system rhesi plethedig, lle gosodir y planhigion ar y cychwyn mewn rhesi, ond gadael iddynt dyfu ynghyd wedyn o fewn gwelyau.

Mae chwyn yn broblem ar y safle, yn enwedig danadl, ysgall, helyglys hardd, blodau menyn, a glaswellt; mae angen rheoli ar y rhain â chwynladdwr cemegol. Mae hwn yn gynllun trwy gydol y flwyddyn ar gyfer y safle cyfan.

## DIOGELU MEFUS

I ddechrau diogelu mefus, crëwyd dau bolydwnnel a gosodwyd system top bwrdd. Elsanta yw'r math o fefus a dyfir yn y twnelau ym Mhenlan-las.

Yn Chwefror, llenwir y cafnau â chompost a'u plannu â phlanhigion plygio newydd; mae'r rhain wedi'u gwarantu i ddwyn ffrwyth ymhen 60 niwrnod. Mae gan y system top bwrdd fanteision, sef bod casglu'r ffrwythau'n haws nag yn y cae, a golyga'r gorchudd amddiffynnol y gellir eu casglu hefyd yn ystod tywydd gwael. Rhoddir bwyd hylifol i'r mefus trwy system Dosatron.

Mae cynhyrchu mefus mewn polydwnnelau gynhyrchu rhyw 30 tonnell fetrig o fefus yr hectar.

## LLUS

Ddwy flynedd yn ôl, plannwyd 15 o lwyni llus ym Mhenlan-las. Plannwyd hwy mewn potiau 20 litr mewn polydwnnel. *Chandler* a *Blue Crop* yw'r ddau fath a dyfir. Mae *Chandler* yn dod â ffrwythau mwy, a hwn yw'r mwyaf cynhyrchiol hyd yma. Tocir y planhigion tua diwedd Chwefror neu ddechrau Mawrth. Mae gofynion llus am faethion yn gymharol isel, felly nid oes arnynt angen ond porthiant gwan bob 4-5 niwrnod. Hyd yma, nid oes problemau plâu na chlefydau gan y llus.

## COED FFRWYTHAU

Mae'r safle'n cynnwys perllan fach draddodiadol â choed amrywiol a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl fel rhan o gytundeb Tir Gofal.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use  
Canolfan Ddiwydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Plannwyd y coed ffrwythau â bylchau llydain rhyngddynt er mwyn caniatáu mynediad rhwydd ar gyfer tocio, cynnal a chasglu. Nid yw'r pridd lôm yn ddelfrydol ar gyfer y coed; fodd bynnag, maent wedi magu gwreiddiau'n dda. Taenwyd gwellt ar y coed gan ddefnyddio hen ddeunydd o welyau'r mefus.

### **IWSTABERIS**

Yn y prif gae ffrwythau yn yr awyr agored, ceir rhes fer o iwstaberis. Mae'r ffrwythau'n union fel gwsberis, hyd nes y byddant yn troi bron yn ddu pan fyddant yn aeddfed. Fel hybrid, mae iwstaberis wedi profi eu bod yn gwrthsefyll amrywiaeth eang o glefydau, yn cynnwys llwydni powdraidd, gwywiad ffwngaid, gwyddon blagur cyrren, a phothell pinwydd gwyn. I reoli'r chwyn, plannwyd y planhigion trwy dalen blastig nyddedig.

### **MAFON**

Defnyddir dau bolydwnnel 50m i gynhyrchu mafon. Y *Glen Ample* â chnydau trwm sy'n dwyn ffrwyth yng Ngorffennaf yw'r prif fath a dyfir. Ni chafwyd ffyniant gwirioneddol ym Mhenlan-las yn achos y cansennau mafon a blannwyd yn y cae. Felly, penderfynwyd defnyddio potiau i blannu'r prif fafon i'w cynhyrchu.

Plennir y mafon dan dwnelau Sbaenaidd mewn potiau tal, 10 litr, â thua 10 o gansenni'n dwyn ffrwyth i bob metr. Mae'r costau sefydlu sydd ynghlwm wrth dyfu dan dwnelau Sbaenaidd yn llawer uwch nag y byddai ar gyfer cansenni ar lai yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gall y cynnyrch fod ddwywaith cymaint ag yn achos cnydau ar gaeau yn yr awyr agored. Dadorchuddir y twnelau yn y gaeaf a'u hail-orchuddio ym mis Mawrth.

### **CYRENS DUON**

Ceir dwy res o gyrens duon ym Mhenlan-las; maent yn gymysgedd mathau tra chynhyrchiol *Ben Lomond* a *Ben Sarek*. Jam a jeli yw'r brif farchnad ar gyfer y cyrens duon. Yn ystod misoedd y gaeaf, caiff unrhyw chwyn a fo wedi tyfu yn yr ardal o gwmpas y llwyni eu clirio â *Roundup* (glyffosad yw'r cynhwysyn gweithredol) fel rhan o rhaglen rheoli chwyn y safle.

### **RIWBOB**

Mae gwely o ryw 15 coron o riwbob wedi'i sefydlu yng nghornel y cae ffrwythau. *Timperly Early* yw'r math. Mae hwn yn fath cynnar poblogaidd â choesyndau pinc hir. Cloddir coron y riwbob a'i rhannu bob 5-6 blynedd i sicrhau cnwd iach a ffyniannus. Mae riwbob yn wydn iawn rhag clefydau, felly mae'n gnwd da ar gyfer tyfwyr newydd.

### **MWYAR DUON**

Dewiswyd y math *Loch Maree* o fwyar duon am ei fod yn fath di-ddrain. Plennir y planhigion dri metr oddi wrth ei gilydd a chlymir hwy wrth ffrâm gynnal o bren. Bu cwingod yn broblem, am eu bod yn debygol o fwyta'r egin ifainc.

### **GWSBERIS**

Gwsberis *Invicta* a dyfir ym Mhenlan-las. Mae hwn yn fath tra chynhyrchiol, â chynnyrch cyfartalog o ryw 10 tunnell fetrig y flwyddyn (ar yr amod nad oes niwed gan farrug). Sefydli'r llwyni ar 'goes' 10cm. Mae hyn yn rhoi cliriad dan y llwyni ac yn codi'r ffrwythau oddi ar y tir er hwyluso codi'r ffrwythau a gofalu am y planhigion. Nid yw *Invicta* yn gwrthsefyll llwydni, felly mae angen ei chwistrellu rhag llwydni unwaith y bydd y planhigion yn wyrdd.

### **CYDNABYDDIAETHAU**

Diolch i Chris Creed, Uwch Ymgynghorydd Garddwriaeth, ADAS / CALU, am arwain y daith, ac i Mark a Suzanne Lloyd am gynnal y diwrnod.